YR ADOLYGIAD O'R
GOFRESTR ELUSENNAU

# Deddf Elusennau Adloniadol 1958

*Awst 2000*

## Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

## Cynnwys


**Am y cyhoeddiad hwn** **2**

**Yr Adolygiad o'r Gofrestr** **2**

**Deddf Elusennau Adloniadol 1958** **2**

**Gofynion cyffredinol ar gyfer statws elusennol** **3**

**The social welfare requirement** **3**

**rynodeb** **3**

**Prif bwyntiau dehongli eraill** **4**

**Atodiad A - Canllaw i gyrff sydd am gofrestru fel elusen dan y Ddeddf** **5**

Dehongliad y Comisiwn o gwmpas adran 1 y Ddeddf 5

Beth ellir ei ystyried fel cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall? 5

Y gofyniad lles cymdeithasol 5

Pryd mae cyfleusterau'n cael eu darparu gyda'r nod o wella amodau byw? 5

Y dosbarthiadau o bobl y mae'n rhaid darparu'r cyfleusterau ar eu cyfer 6

ydrannau eraill lles cymdeithasol 6

**Defnyddio cyfleusterau a threfnu gweithgareddau** **7**

**Cyswllt/adloniant cymdeithasol** **7**

**Cyfleusterau ar gyfer chwaraeon** **8**

Y gofyniad budd i'r cyhoedd 8

Darpariaethau aelodaeth 9

Cyrff aelodau hunanystyriol 9

Hawliau defnydd blaenorol 9

**Atodiad B - Adran 1 Deddf Elusennau Adloniadol 1958** **10**

Darpariaeth gyffredinol yngl_n ag ymddiriedolaethau adloniadol ac ymddiriedolaethau tebyg etc 10

**Gwybodaeth bellach** **10**

**Nodiadau** **10**

## Am y cyhoeddiad hwn

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi barn y Comisiwn Elusennau ar gwmpas adran 1 Deddf Elusennau Adloniadol 1958. Rydym wedi ystyried hyn fel rhan o'n Hadolygiad o'r Gofrestr Elusennau. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd at y canllaw hwn.

## Yr Adolygiad o'r Gofrestr

2. Mae'r Comisiwn Elusennau yn ceisio rhoi ffydd i'r cyhoedd mewn onestrwydd elusennau. Rydym yn atebol am ein penderfyniadau i'r llysoedd ac i'r Ysgrifennydd Cartref am ein heffeithlonrwydd. Rydym yn ymgymryd ag amrywiaeth o swyddogaethau gan gynnwys cofrestru, monitro a chefnogi elusennau ac ymchwilio i honiadau o gamweinyddu.

3. Mae'r Gofrestr Elusennau yn rhestr o elusennau a sefydlwyd yng Nghymru a Lloegr sy'n dod dan ein harolygaeth. Mae cyfrifoldeb statudol gennym i'w chadw'n gyfoes. Mae'r ddealltwriaeth o'r hyn sy'n elusennol yn gyfreithiol wedi parhau i ddatblygu ers i'r Gofrestr gael ei chreu dros 35 o flynyddoedd yn ôl. O ganlyniad, mae bron yn sicr bod sefydliadau ar y Gofrestr y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried nad ydynt yn elusennol erbyn hyn, a sefydliadau nad ydynt ar y Gofrestr ond a ddylai efallai fod arni.

4. Felly rydym yn cymryd golwg hir a chaled ar y Gofrestr er mwyn ystyried, o fewn y gyfraith, a ddylai'r sefydliadau hynny sy'n cael budd ar hyn o bryd o statws elusennol barhau i wneud hynny, ac a oes lle i ddatblygu ymhellach ffiniau statws elusennol. Bydd y ddau beth yn cael eu gwneud trwy'r defnydd hyblyg o'n pwerau i gymhwyso a dehongli'r gyfraith.

5. Mae'r egwyddorion a ddefnyddir i gyd wedi'u seilio ar y gyfraith elusennau bresennol. Gellir dod o hyd i "nodweddion hanfodol elusennau" yn ein cyhoeddiad ar wahân **Yr Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau (RR1),** sydd hefyd yn esbonio'r broses yn fwy manwl.

## Deddf Elusennau Adloniadol 1958

6. Cafodd Deddf Elusennau Adloniadol 1958 ('y Ddeddf') ei phasio i gadarnhau statws elusennol ystod eang o gyrff adloniadol, a gafodd eu trin yn flaenorol fel rhai elusennol, ond roedd eu sefyllfa'n cael ei hamau yn dilyn penderfyniad Ty'r Arglwyddi yn **Comisiynwyr Cyllid y Wlad v Baddeley [1955] AC 572.** Diben y Ddeddf oedd bod yn gyweiriol: ni fwriadwyd ymestyn statws elusennol i ystod ehangach o gyrff adloniadol, ond adfer y sefyllfa a oedd yn bodoli cyn penderfyniad Ty'r Arglwyddi.

7. Mae Adran 1 y Ddeddf yn derbyn bod cyfleusterau ar gyfer adloniant a galwedigaeth amser hamdden arall a ddarperir er budd lles cymdeithasol gyda'r nod o wella amodau byw i'r bobl y'u darperir ar eu cyfer yn elusennol. (Er mwyn cyfeirio ato'n hawdd, mae testun llawn adran 1 y Ddeddf wedi'i atgynhyrchu yn Atodiad B y cyhoeddiad hwn). Mae'r enghreifftiau a roddir yn adran 1(3) y Ddeddf o'r math o gyfleusterau y mae'r ddarpariaeth yn cyfeirio atynt yn cynnwys neuaddau pentref, canolfannau cymunedol, sefydliadau menywod a meysydd chwarae.

8. Ond erbyn hyn mae ystod y gweithgareddau adloniadol sydd ar gael, a'r cyrff sy'n bodoli i'w darparu, yn llawer mwy na phan basiwyd y Ddeddf. Hefyd, mae pwysigrwydd a gwerth gweithgareddau amser hamdden yn cael ei dderbyn fwyfwy. O ganlyniad, rydym yn derbyn nifer o geisiadau i gofrestru cyrff adloniadol, gan gynnwys mathau nad oeddent yn bodoli pan basiwyd y Ddeddf.

9. Gall anawsterau godi wrth bennu i ba raddau y mae cwmpas adran 1 y Ddeddf yn cynnwys y gweithgareddau adloniadol newydd ac amrywiol niferus sy'n gyffredin erbyn hyn. Felly, barnwyd bod angen cynnal adolygiad cynhwysfawr o gwmpas yr adran honno o'r Ddeddf. Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu ein barn ar hyn o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw.

## Gofynion cyffredinol ar gyfer statws elusennol

**10.** Rhaid i unrhyw gorff sy'n hawlio statws elusennol dan y Ddeddf gael amcanion sy'n elusennol yn unig. A rhaid iddynt ddangos nodweddion hanfodol eraill elusennau, fel a nodwyd yn ein cyhoeddiad Yr Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau (RR1).

## The social welfare requirement

**11.** Yn adran 1(1), mae'r Ddeddf yn datgan, yn amodol ar ei darpariaethau, bod darparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall yn elusennol **os** yw'r cyfleusterau yn cael eu darparu *"er budd lles cymdeithasol"*.

**12.** Yn ein hadolygiad, dadansoddwyd y gofyniad hwnnw ('y gofyniad lles cymdeithasol'). Mae'n rhaid i ni ddehongli'r Ddeddf yn unol â dymuniadau'r Senedd ar adeg pasio'r Ddeddf, gan roi ystyriaeth yn arbennig i ddeddfwriaeth arall a oedd yn defnyddio'r cymal "lles cymdeithasol". Nid oedd modd i ni ehangu hyn ymhellach na bwriad y Senedd ar y pryd. Daethpwyd i'r casgliad nad yw ateb y gofyniad lles cymdeithasol yn ddigon i gorff ateb union ofynion adran 1: rhaid iddo hefyd -

- bod yn anhunanol o ran ei natur; a
- chael ei sefydlu i ateb anghenion cymdeithasol arbennig. Yr anghenion hyn yw'r rhain y mae'n rhaid eu hateb os nad yw amodau byw pobl yn mynd i fod yn annigonol.

## rynodeb

**13.** Wrth bennu a yw corff sy'n darparu cyfleusterau neu'n trefnu gweithgareddau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall yn elusennol neu beidio dan adran 1 y Ddeddf, byddai angen i ni fod yn sicr:

(i) ei fod yn darparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall (gweler paragraff A3 Atodiad A);

(ii) ei fod yn ateb y gofyniad lles cymdeithasol, sef:

- bod y cyfleusterau yn cael eu darparu gyda'r nod o wella amodau byw (gweler paragraffau A5-A8 Atodiad A). Yn ôl hyn mae'n ofynnol i'r cyfleusterau:
  - gael eu darparu gyda'r amcan hwnnw yn unig;
  - bod â'r gallu, ar sail wrthrychol, i wella amodau byw;
- bod y cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol neu ddosbarthcyfyngedig o bobl y gellir ystyried bod ganddynt angen arbennig am y cyfleusterau hynny (gweler paragraffau A9-12 Atodiad A);
- bod y sefydliad yn anhunanol o ran natur (gweler paragraff A14 Atodiad A);
- bod cyfleusterau wedi'u sefydlu i ateb anghenion cymdeithasol arbennig, h.y. anghenion y mae'n rhaid eu hateb os nad yw amodau byw pobl yn mynd i fod yn annigonol (gweler paragraffau A15-A17 Atodiad A);

(iii) ei fod yn ateb y gofyniad budd i'r cyhoedd, sef:

- bod y corff yn cynnig budd i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd ac nid yw unrhyw fudd i unigolion preifat yn fwy na budd atodol neu ategol i'r budd hwnnw i'r cyhoedd;
- nid yw ei effaith gyffredinol yn niweidiol;

- os yw'r corff yn mabwysiadu strwythur aelodaeth, mae'n gwneud hynny fel mater o gyfleustra gweinyddol yn unig er mwyn cyflwyno buddiannau yn well yn hytrach na'u cyfyngu, ac mae aelodaeth yn agored i bawb sydd am ymuno (gweler paragraffau A30-A33 Atodiad A);
- nid yw wedi'i sefydlu er budd ei aelodau yn bennaf (gweler paragraffau A34-A35 Atodiad A);
- nid oes unrhyw flaenoriaeth gyfreithiol rwymol yngl_n â'r defnydd o'r cyfleusterau o blaid corff neu ddosbarth o bobl anelusennol (gweler paragraffau A36-A37).

## Prif bwyntiau dehongli eraill

**14.** Wrth ystyried cwmpas a graddfa adran 1 y Ddeddf, daethpwyd i'r casgliad hefyd:

- Nad yw darparu cyfleusterau a threfnu digwyddiadau ar gyfer cyswllt cymdeithasol neu ddibenion adloniant penodol (yn wahanol i ddarparu cyfleusterau adloniadol i'w defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas, gan gynnwys adloniant) yn gallu dod o fewn y Ddeddf yn gyffredinol. Yr eithriad i hyn yw lle mae cyfleusterau yn ateb angen cymdeithasol clir sydd angen ei ateb os nad yw amodau byw pobl yn mynd i fod yn annigonol. (Gweler paragraffau A20-23 Atodiad A).
- Mae darparu cyfleusterau ar gyfer un gamp yn llai tebygol o ateb y gofyniad lles cymdeithasol na darparu cyfleusterau ar gyfer amrywiaeth o chwaraeon. (Gweler paragraffau A24-26 Atodiad A).
- Mae Atodiad A yn ymdrin â'r pwyntiau hyn yn fwy manwl.

## Atodiad A - Canllaw i gyrff sydd am gofrestru fel elusen dan y Ddeddf

### Dehongliad y Comisiwn o gwmpas adran 1 y Ddeddf

**A1.** Rhaid bodloni tair prif elfen cyn bod hawl gan gorff gael statws elusennol dan adran 1 y Ddeddf, sef:

- rhaid i'r corff ddarparu, neu gynorthwyo wrth ddarparu, *"cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall";*
- rhaid i'r cyfleusterau hynny gael eu darparu *"er budd lles cymdeithasol"* (y 'gofyniad lles cymdeithasol');
- rhaid i'r gofyniad budd i'r cyhoedd gael ei fodloni.

**A2.** Er mwyn bod yn elusennol dan y ddeddf rhaid bodloni'r tair elfen. Nid yw'n ddigon i gorff fodloni dim ond un neu ddwy ohonynt. Felly rydym wedi edrych yn fanwl ar beth a olygir gan bob un o'r gofynion hyn.

### Beth ellir ei ystyried fel cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall?

**A3.** Rydym yn dehongli hyn yn gyffredinol: mae'n ymddangos yn bosib ei fod yn ymestyn i unrhyw weithgaredd a wna pobl er eu pleser eu hunain y tu allan i'r gwaith. Ond nid yw hyn yn golygu ei fod yn elusennol o anghenraid i ddarparu'r cyfleusterau hyn. Er mwyn bod yn elusennol rhaid bodloni'r gofynion lles cymdeithasol a budd i'r cyhoedd hefyd.

### Y gofyniad lles cymdeithasol

**A4.** Yn ôl y Ddeddf (yn adran 1(2)) ni fydd y gofyniad lles cymdeithasol yn cael ei fodloni

*"oni bai* -

(a) bod cyfleusterau'n cael eu darparu gyda'r nod o wella amodau byw i'r bobl y darperir y cyfleusterau ar eu cyfer yn bennaf; a

(b) naill ai

(i) bod angen cyfleusterau o'r fath ar y bobl hynny ar sail eu hieuenctid, eu hoedran, eu hanalluedd neu eu hanabledd, eu tlodi neu eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd; neu

(ii) mae'r cyfleusterau ar gael i aelodau neu aelodau benyw o'r cyhoedd yn gyffredinol."

### Pryd mae cyfleusterau'n cael eu darparu gyda'r nod o wella amodau byw?

**A5.** A5. Mae dwy elfen i'r cwestiwn hwn. Yn gyntaf, rhaid i'r nod o wella amodau byw fod yr unig nod neu bwrpas dros ddarparu'r cyfleusterau, waeth beth fo cymhelliad y rheiny a allai eu defnyddio. Yn ail, rhaid i'r cyfleusterau *allu*, ar sail wrthrychol, gwella amodau byw i'r rheiny y cânt eu darparu ar eu cyfer.

**A6.** Nid oes unrhyw ofyniad at y pwrpas hwn y dylai'r rheiny y darperir y cyfleusterau ar eu cyfer fod yn amddifad neu'n ddifreintiedig mewn rhyw ffordd: gall amodau byw pobl gael eu gwella ar gyfer y diben hwn waeth beth fo'u sefyllfa gymdeithasol neu economaidd. (Gweler **Guild v IRC [1992] 2 AC 310.**)

**A7.** Mae'n amlwg y bydd cyfleusterau a ddarperir ar gyfer y diben o hybu adloniant iach yn gwella amodau byw. Ond, mewn rhai amgylchiadau, gall cyfleusterau nad ydynt wedi'u hanelu at wella iechyd hefyd gael eu hystyried fel cyfleusterau sy'n gwella amodau byw. Mae enghreifftiau yn cynnwys cyfleusterau o'r mathau y cyfeiriwyd atynt yn benodol yn adran 1(3) y Ddeddf, sef neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol.

**A8.** Felly gall fod modd dod i'r casgliad bod cyfleusterau, â siarad yn wrthrychol, yn gallu gwella amodau byw pobl os mai prif nodwedd y cyfleuster fydd:

- lleihau gwaharddiad cymdeithasol (os yw'n cael ei achosi gan oedran, anabledd, tlodi, iaith neu dras ethnig);
- hybu cyfraniad y cyhoedd;
- gwella addysg neu iechyd lle nad oedd unrhyw gyfleusterau'n bodoli cyn hyn, neu roedd y cyfleusterau'n annigonol cyn hyn.

## Y dosbarthiadau o bobl y mae'n rhaid darparu'r cyfleusterau ar eu cyfer

### Dosbarthiadau arbennig y cyfeirir atynt yn adran 1(2)(b)(i) y Ddeddf

**A9.** Os yw cyfleusterau'n cael eu darparu ar gyfer dosbarth arbennig o bobl a nodwyd o fewn y Ddeddf, fel y tlawd, y sâl, yr ifanc neu bobl oedrannus, nid oes llawer o anhawster wrth dderbyn y cyfleusterau hyn fel rhai elusennol. Gellir ystyried grwpiau o bobl o'r fath fel rhai sydd ag anghenion arbennig oherwydd eu bod dan rywfaint o anfantais, o'u cymharu â gweddill y gymuned, o ran darganfod, darparu, ariannu, trefnu neu reoli cyfleusterau addas ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall. Mae'n hawdd felly ystyried bod darparu cyfleusterau adloniadol ar gyfer grwpiau o'r fath yn ateb angen cymdeithasol.

**A10.** Rydym hefyd yn derbyn bod rhai grwpiau, fel rhai grwpiau lleiafrif ethnig (gweler nod 1), yn gallu dangos angen arbennig ar gyfer y cyfleusterau adloniadol dan sylw, oherwydd eu hamgylchiadau cymdeithasol neu economaidd.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

**A11.** Effaith adran 1(2)(b)(ii) y Ddeddf yw hyn - os nad yw cyfleusterau'n cael eu darparu gyda'r nod o well amodau byw dosbarth o bobl fel a nodwyd yn adran 1(2)(b)(i), yna, er mwyn bod yn elusennol, rhaid i'r cyfleusterau fod ar gael i'r *"cyhoedd yn gyffredinol"*. Er mwyn ateb y gofyniad hwnnw ystyrir bod rhaid i gyfleusterau fod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu defnyddio, heb fod yn amodol ar unrhyw ethol i aelodaeth neu dalu ffi mynediad afresymol. Ni ddylai unrhyw un ychwaith gael ei wahardd rhag defnyddio'r cyfleusterau oherwydd nad oes ganddynt (neu fod ganddynt) unrhyw gymhwyster personol - naill ai'n ymwneud â'u hoedran, eu rhyw, eu hil, neu eu hamgylchiadau ariannol, neu eu barn gymdeithasol, grefyddol neu wleidyddol.

**A12.** Ystyrir bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, hyd yn oed os ydynt yn cael eu defnyddio gan glybiau yn bennaf, neu yn unig, ar yr amod bod y cyfleuster ar gael i **bob** clwb sydd am eu defnyddio.

## ydrannau eraill lles cymdeithasol

**A13.** Yn ein hadolygiad, buom yn ystyried a yw adran 1 y Ddeddf yn cynnwys diffiniad llawn o'r gofyniad lles cymdeithasol. Nid yw'n gwneud hyn yn ein barn ni. Mae egwyddorion cyffredin dehongliad statudol, a ategwyd gan ddatganiadau a wnaed gan Weinidogion pan gafodd y Ddeddf ei phasio, yn eu gwneud yn glir na fwriadwyd i adran 1(2) fod yn ddiffiniad cyflawn o ystyr *"er budd lles cymdeithasol"*. Mae'n ymddangos, yn lle hynny, y dylid ei ddeall yn yr ystyr y cafodd ei ddehongli'n gyffredithiol yng nghyd-destun deddfwriaeth arall. Er nad yw unrhyw ddiffiniad holl-gynhwysol wedi cael ei roi erioed, mae achosion a benderfynwyd mewn cyd-destunau eraill yn awgrymu bod y datganiad yn awgrymu elfennau o anhunanoldeb ac atebolrwydd cymdeithasol.

### Anhunanoldeb

**A14.** Mae hyn yn cynnwys ceisio darparu rhywbeth er budd eraill yn hytrach na chi'ch hun. Felly os yw pobl yn dod at ei gilydd er eu budd eu hunain (er enghraifft, i sefydlu clwb cymdeithasol er eu budd eu hunain) nid ydynt yn ymhel â lles cymdeithasol. Bydd corff yn ateb y gofyniad hwn os nad yw'n 'hunanystyriol' (gweler paragraff A34).

**Rhwymedigaeth gymdeithasol**

**A15.** Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleusterau a ddylai gael eu darparu fel mater o rwymedigaeth gymdeithasol, oherwydd os nad ydynt bydd amodau byw pobl yn annigonol. Dylid asesu 'digonol' at y pwrpas hwn trwy gyfeirio at anghenion rhesymol y gymuned gyfan mewn perthynas â chyswllt cymdeithasol, symbyliad meddyliol ac ymarfer corff.

**A16.** Gallai'r ffactorau canlynol fod yn berthnasol wrth ystyried a yw'r cyfleusterau yn rhai a ddylai gael eu darparu fel ymateb i ddarpariaeth gymunedol annigonol o'r fath:

- mae'r gymuned yn anghysbell yn ddaearyddol;
- unrhyw ddiffyg cludiant cyhoeddus;
- unrhyw ddiffyg cyfleusterau eraill lleol am brisiau fforddiadwy;
- maint y gymuned a chymariaethau â chyfleusterau sydd ar gael mewn mannau eraill.

**A17.** Wrth gwrs, gall yr hyn sy'n cynrychioli lefel briodol o gyfleusterau newid dros gyfnod. Felly bydd angen i ni ystyried amgylchiadau cymdeithasol newidiol wrth ystyried a oes angen cymdeithasol ar gyfer cyfleuster adloniadol arbennig.

## Defnyddio cyfleusterau a threfnu gweithgareddau

**A18.** Trwy rinwedd adran 1(3), mae'r Ddeddf yn ymestyn nid yn unig i ddarparu cyfleusterau ond hefyd i drefnu gweithgareddau. Pan fydd corff yn trefnu gweithgareddau yn ogystal â darparu cyfleusterau, rhaid i'r gweithgareddau hynny hefyd ateb y gofyniad lles cymdeithasol os yw am gael ei gofrestru yn elusennol dan y Ddeddf.

**A19.** Ond nid yw hyn yn golygu bod rhaid i weithgareddau'r cyrff gwahanol sy'n defnyddio'r cyfleusterau ateb y gofyniad lles cymdeithasol: mae'r Ddeddf yn ymwneud â gweithgareddau'r corff sy'n darparu'r cyfleusterau adloniadol eu hunain yn unig. Felly nid oes unrhyw ofyniad y dylai cyrff sy'n defnyddio neuadd bentref neu ganolfan gymunedol fod yn elusennol neu y dylai eu gweithgareddau ateb y gofyniad lles cymdeithasol.

## Cyswllt/adloniant cymdeithasol

**A20.** Yn gyson â'r hyn a ddywedir uchod, nid oes unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i gorff elusennol a sefydlwyd dan y Ddeddf yn darparu adeiladau at ddefnydd cyffredinol y cyhoedd ac wedyn yn cael eu defnyddio gan unigolion neu grwpiau at ddibenion cyswllt neu adloniant cymdeithasol. (Mae neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol yn enghreifftiau o hyn).

**A21.** Mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth os yw'r corff *ei hun* yn darparu cyswllt neu adloniant cymdeithasol. Os mai dyma yw'r achos, ni fyddem yn derbyn yn gyffredinol fod gwneud hynny yn ateb rhwymedigaeth gymdeithasol y gofyniad lles cymdeithasol: ni fyddem yn gyffredinol yn ystyried fod darparu cyfleusterau o'r fath yn ateb angen cymdeithasol a ddylai, fel mater o rwymedigaeth gymdeithasol, gael ei ateb.

**A22.** Er enghraifft, mae'n elusennol i ddarparu canolfan gymunedol a allai gael ei hurio ar gyfer unrhyw bwrpas, fel chwarae bridge, dawnsio llinell neu gynnal gyrfâu chwist. Ond ni fyddai'r grwpiau sy'n hurio'r cyfleusterau ar gyfer y dibenion hynny yn elusennol eu hunain. Ni fyddai'n elusennol yn gyffredinol ychwaith i ddarparu cyfleusterau yn benodol ar gyfer un o'r dibenion hynny.

**A23.** Wrth gwrs, efallai fod amodau byw rhai pobl (e.e. pobl oedrannus) yn golygu y byddai darparu cyfleusterau ar gyfer cyswllt neu adloniant cymdeithasol yn ateb gofyniad lles cymdeithasol oherwydd bod angen y cyfleusterau hynny arnynt ar sail eu hoedran. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai hyn fod yn wir hefyd mewn perthynas â thrigolion cymuned ddaearyddol arbennig (e.e. cymuned anghysbell heb unrhyw neu ychydig o gyfleusterau, nad oes gan yr aelodau ddigon o

adnoddau eu hunain i ddarparu cyfleusterau o'r fath y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol). Hefyd, nid oes gwrthwynebid i ddarparu adloniant yn achlysurol os yw'n cael ei ddarparu at ddiben codi arian.

## Cyfleusterau ar gyfer chwaraeon

**A24.** Mewn egwyddor, gall y Ddeddf fod yn gymwys i gyfleusterau chwaraeon aml-bwrpas, fel canolfannau chwaraeon neu feysydd chwarae (a all fod yn elusennol dan egwyddorion eraill y gyfraith elusennau hyd yn oed os nad yw'r Ddeddf yn berthnasol iddynt yn benodol). Er bod cyfleusterau o'r fath yn cael eu defnyddio gan glybiau a thimau sy'n chwarae'n gystadleuol wrth gwrs, cânt eu darparu i'w defnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol - gan bobl o bob oedran a gallu ac iechyd amrywiol. Nid oes angen unrhyw offer arbennig (neu o leiaf dim na ellir eu darparu trwy godi tâl mynediad cymedrol). Felly nodwedd cyfleusterau o'r fath yw eu bod at ddiben adloniant iach yn hytrach na rhai ar gyfer hybu chwaraeon ac felly, darperir cyfleusterau gyda'r nod o wella amodau byw.

**A25.** Ond gellir cyferbynnu cyfleusterau o'r fath â chyfleusterau ar gyfer un gamp, a ddefnyddir ar gyfer y diben o chwarae y gamp arbennig honno yn unig. Wrth ystyried cwmpas adran 1 y Ddeddf, mae'n fwy anodd ystyried bod cyfleuster ar gyfer chwarae camp arbennig yn gyfleuster a ddarperir gyda'r nod o wella amodau byw, oherwydd mae'n ymddangos ei fod yn ymwneud yn bennaf â hybu'r gamp dan sylw. Gall hefyd fod yn anodd i dderbyn bod darparu cyfleusterau ar gyfer un gamp yn ateb rhwymedigaeth gymdeithasol y gofyniad lles cymdeithasol, yn enwedig os mai pobl sydd wedi cyrraedd lefel arbennig o allu sy'n gallu eu defnyddio yn unig.

**A26.** Tra y gall darparu cyfleusterau ar gyfer un gamp ddod o fewn adran 1 y Ddeddf, bydd angen i ni bob amser ystyried a ydynt yn ateb y gofynion lles cymdeithasol a budd i'r cyhoedd hefyd. Bydd hyn yn dibynnu ar ffeithiau'r achos arbennig.

## Y gofyniad budd i'r cyhoedd

**A27.** Mae Adran 1(1) y Ddeddf yn cadw'r gofyniad cyffredinol bod rhaid i gorff gael ei sefydlu er budd y cyhoedd er mwyn iddo fod yn elusennol. Fel rheol mae sawl agwedd i'r gofyniad hwn:

(a) rhaid bod budd a gydnabyddir dan y gyfraith;

(b) rhaid i'r budd hwnnw gael ei gynnig i'r cyhoedd, neu ran ddigonol o'r cyhoedd, ac nid yw unrhyw fudd i unigolion preifat yn fwy na budd atodol neu ategol;

(c) ni ddylai'r effaith gyffredinol fod yn niweidiol.

Ond yn achos cyrff sy'n hawlio statws elusennol dan y Ddeddf, dim ond gofynion b) ac c) sy'n cael eu cadw dan adran 1(1) y Ddeddf: mae bodolaeth budd a gydnabyddir dan y gyfraith yn cael ei benderfynu dan adran 1(2), h.y. ar y sail bod y gofyniad lles cymdeithasol yn cael ei fodloni.

**A28.** Nid yw cydymffurfio â'r gofyniad budd i'r cyhoedd fel rheol yn achosi anhawster os yw cyfleusterau'n cael eu darparu i'r cyhoedd (neu aelodau benyw o'r cyhoedd) yn gyffredinol.

**A29.** Ond os yw cyfleusterau'n cael eu darparu ar gyfer dosbarth cyfyngedig o bobl dan adran 1(2)(b)(i), er gwaetha'r ffaith eu bod yn gallu ateb angen cymdeithasol, gall fod amheuaeth mewn rhai achosion a yw'r prawf budd i'r cyhoedd yn cael ei fodloni: gall cwestiynau anodd godi wrth benderfynu a yw dosbarth o bobl yn ffurfio rhan ddigonol o'r cyhoedd at ddibenion y gofyniad budd i'r cyhoedd. Mae'r materion hyn hefyd yn codi mewn perthynas â dibenion sy'n fuddiol i'r gymuned yn gyffredinol, a bydd angen ateb y cwestiynau hyn ym mhob achos ar sail egwyddorion cyffredinol.

## Darpariaethau aelodaeth

**A30.** Mae nifer o gyrff adloniadol yn sianelu'r buddiannau a ddarperir trwy strwythur aelodaeth. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw cyfleusterau a ddarperir fel hyn ar gael i'r cyhoedd, neu ran ddigonol ohono, er mwyn ateb y gofyniad budd i'r cyhoedd.

**A31.** Os yw buddiannau a ddarperir gan glwb neu gymdeithas yn gyfyngedig naill ai'n ffurfiol neu yn ymarferol i'w aelodau, gall nodwedd gyffredin aelodaeth fwrw amheuaeth ar y gofyniad bod yr aelodau yn rhan o'r cyhoedd yn hytrach na gr_p preifat yn unig.

**A32.** Ond mae'n well ystyried a yw aelodau'r clwb neu gymdeithas yn ffurfio rhan o'r cyhoedd fel cwestiwn o raddfa. Credwn os yw buddiannau wedi'u cyfyngu i aelodau corff bydd y prawf budd i'r cyhoedd yn cael ei fodloni, ar yr amod bod:

(a) y strwythur aelodaeth yn cael ei fabwysiadu (fel y bydd yr achos yn aml lle mae elusennau adloniadol dan sylw) dim ond fel mater o gyfleuster gweinyddol i gael ffordd well o gynnig buddiannau, yn hytrach na ffordd o'u cyfyngu; a

(b) aelodaeth o'r corff yn agored i bawb sydd am ymuno.

**A33.** Bydd gofyniad (b) uchod yn cael ei fodloni dim ond os:

- nad oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer yr aelodau neu y dull o'u dewis (fel pwer i wahardd neu ofyniad i gael enwebiad);
- nad yw unrhyw ddarpariaethau diarddel yn tanseilio 'natur agored' yr aelodaeth a gellir eu defnyddio am reswm da yn unig a gyda hawl i leisio barn;
- yw unrhyw danysgrifiad yn cael ei osod ar lefel nad yw mewn gwirionedd yn amharu neu'n gwahardd ceisiadau am aelodaeth;
- yw'r defnydd o'r cyfleusterau yn agored yn gyfartal i bob aelod (er enghraifft, yng nghyd-destun cyfleuster chwaraeon nid yw aelodaeth yn cael ei bennu gan unrhyw fath o ddewis ar sail gallu).

## Cyrff aelodau hunanystyriol

**A34.** Hyd yn oes os oes ganddo aelodaeth agored, ni all corff sy'n bodoli'n bennaf er budd ei aelodau ei hun (a ddisgrifir weithiau yn gyfreithiol fel cymdeithas gydfuddiannol neu gorff aelodau 'hunanystyriol') fod yn gymwys i fod yn elusen (gweler nod 2).

**A35.** Ond nid yw'r ffaith bod buddiannau corff wedi'u cyfyngu i'w aelodau neu ei danysgrifwyr yn golygu yn awtomatig ei fod yn gorff aelodau hunanystyriol. Mae'n ymddangos bod hyn yn fater o gydbwysedd. Rhaid gofyn a yw mabwysiadu'r strwythur aelodaeth, a'r buddiannau y caiff aelodau dan y strwythur, yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r diben elusennol.

## Hawliau defnydd blaenorol

**A36.** Tra nad yw'r gyfraith yn y maes hwn yn glir, yn ein barn ni, ni fydd y prawf budd i'r cyhoedd yn cael ei fodloni os yw'r defnydd o gyfleusterau corff adloniadol yn amodol ar flaenoriaeth sy'n gyfreithiol rwymol o blaid corff neu ddosbarth anelusennol (fel aelodau clwb cymdeithasol arbennig) er bod dibenion y corff adloniadol yn ymestyn i ddosbarth elusennol (fel y cyhoedd yn gyffredinol).

**A37.** Mae'r egwyddor hon ond yn berthnasol os oes blaenoriaeth gyfreithiol rwymol o blaid corff neu ddosbarth anelusennol. Mae ymddiriedolwyr elusennau sy'n darparu cyfleusterau dan y Ddeddf yn rhydd i benderfynu, wrth weithredu eu disgresiwn yn briodol, y dylai corff neu grwp arbennig ddefnyddio'r cyfleusterau ar adeg arbennig.

## Atodiad B - Adran 1 Deddf Elusennau Adloniadol 1958

### Darpariaeth gyffredinol yngl_n ag ymddiriedolaethau adloniadol ac ymddiriedolaethau tebyg etc

1. (1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf hon, caiff ei bennu a'i bennu bob amser yn elusennol i ddarparu, neu gynorthwyo wrth ddarparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall os yw'r cyfleusterau'n cael eu darparu er budd lles cymdeithasol:

   Ar yr amod na fydd unrhyw beth yn yr adran hon yn cael ei gymryd i dynnu oddi wrth yr egwyddor bod rhaid i ymddiriedolaeth neu sefydliad fod er budd y cyhoedd er mwyn bod yn elusennol.

   (2) Ni fydd gofyniad yr is-adran flaenorol bod cyfleusterau'n cael eu darparu er lles budd cymdeithasol yn cael ei fodloni oni bai -

   (a) bod y cyfleusterau'n cael eu darparu gyda'r nod o wella amodau byw i'r bobl y bwriedir y cyfleusterau ar eu cyfer yn bennaf; a

   (b) naill ai

   (i) mae angen y cyfleusterau hyn ar y bobl hynny oherwydd eu hieuenctid, eu hoedran, eu hanalluedd, eu hanabledd, eu tlodi neu eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd; neu

   (ii) mae'r cyfleusterau ar gael i aelodau neu aelodau benyw o'r cyhoedd yn gyffredinol.

   (3) Yn amodol ar y gofyniad hwn, mae is-adran (1) yr adran hon yn berthnasol yn arbennig i ddarparu cyfleusterau mewn neuaddau pentref, canolfannau cymunedol a sefydliadau menywod, ac i ddarparu a chynnal a chadw tiroedd ac adeiladau i'w defnyddio at ddibenion adloniant neu alwedigaeth amser hamdden, ac mae'n ymestyn i ddarparu cyfleusterau i'r dibenion hynny trwy drefnu unrhyw weithgaredd.

## Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach efallai y bydd o ddefnydd i chi gyfeirio at y cyhoeddiadau canlynol gan y Comisiwn Elusennau:

RR1 Yr Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau

Am restr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau, casetiau sain a fideo, gofynnwch am:

CC1 Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

Er mwyn cael copïau o unrhyw rai o'r cyhoeddiadau uchod, gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n cyfeiriad ar y rhyngrwyd: **www.charity-commission.gov.uk**;
- ysgrifennu at y Swyddog Dosbarthu yn ein swyddfa yn Taunton; neu
- ffonio 01823 345427 a gadael neges ar y peiriant ateb.

## Nodiadau

1. Penderfyniadau'r Comisiwn Elusennau, Cyfrol 4, tudalennau 17-21A12. Ystyrir bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, hyd yn oed os ydynt yn cael eu defnyddio gan glybiau yn bennaf, neu yn unig, ar yr amod bod y cyfleuster ar gael i **bob** clwb sydd am eu defnyddio.

2. Gweler **Re Hobourn Aero Components Limited's Air Distress Fund [1946] Ch 194; IRC v City of Glasgow Police Athletic Association [1953] AC 380; Waterson v Hendon Borough Council [1959] 2 All ER 760;** a **Neville Estates v Madden [1962] Ch 832, 854**.

© Hawlfraint y Goron 2000. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

**Comisiwn Elusennau**
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Deddf Elusennau Adloniadol 1958. Awst 2000.

**RR4**